

Cwestiynau Cyffredin Cyllidebu Cyfranogol (CC)



Beth yw Cyllidebu Cyfranogol (CC)?

Math o ddemocratiaeth gyfranogol yw Cyllidebu Cyfranogol, lle mae pobl gyffredin yn penderfynu sut i ddyrannu rhan o gyllideb gyhoeddus. Wedi'i ddatblygu yn y 1980au yn Porto Alegre, Brasil, mae CC yn broses o drafod a gwneud penderfyniadau democrataidd. Fel y dywed pobl Porto Alegre **"Os yw'n teimlo fel taw NI sydd wedi penderfynu, CC yw e. Os yw'n teimlo fel taw rhywun arall sydd wedi penderfynu, nid CC mo hynny"**.

Mae CC yn hyblyg iawn gan y gellir ei ddefnyddio mewn perthynas â:

Lle (cymuned, ardal, dinas a rhanbarth – yn seiliedig ar ofod)

Thema Gynllunio (iechyd, trafnidiaeth, tai, addysg, economaidd, plismona)

Pobl (grwpiau cymdeithasol penodol – ieuenctid, merched, yr henoed, LHDTG+, grwpiau ethnig ac ati)

Mae CC wedi'i gynllunio i rymuso cymunedau a'u helpu i weithio gydag asiantaethau lleol i ddatblygu atebion i broblemau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Beth yw prif fantais cynllunio a chynnal digwyddiad CC?

I raddau, mae'r gronfa CC yn gatalydd i helpu i adeiladu rhwydweithiau a rhywbeth o'r enw cyfalaf cymdeithasol*. Drwy gydol y broses byddwch yn dod yn ymwybodol o weithgareddau, projectau a gwasanaethau nad ydych efallai wedi bod yn ymwybodol ohonynt o'r blaen. Y cyfleoedd rhwydweithio ac ymwybyddiaeth yw'r agwedd bwysicaf ar CC. Bydd y CC ei hun yn cynhyrchu syniadau, cydberthnasau a mentrau newydd yn lleol a dyma'r cyfalaf cymdeithasol sydd ei angen i drawsnewid cymunedau.

Faint ddylai fod ar gael?

Rydym wedi cefnogi digwyddiadau CC sy'n amrywio o dros £1,000,000 i rai miloedd. Byddem yn argymhell neilltuo o leiaf £15,000 gan fod angen cryn dipyn o waith i gyflwyno digwyddiad CC effeithiol. Ar gyfer unrhyw swm sy'n llai na hynny efallai yr hoffech ystyried defnyddio proses ariannu grant arferol lle mae swyddogion y sefydliad dyfarnu yn penderfynu pwy fydd yn cael arian. Rydym bob amser yn hapus i drafod eich gofynion.

Pa mor hir mae'r broses CC yn para?

Mae'r broses CC yn cynnwys un diwrnod o hyfforddiant ac yna 4 x 2 awr o sesiynau cyflenwi a gefnogir. Dyma lle caiff y penderfyniadau allweddol eu gwneud a'r logisteg ei gynllunio. Rydym yn mynychu'r diwrnod penderfynu terfynol i helpu i sicrhau bod y broses gyflwyno a phleidleisio yn rhedeg yn ddidrafferth. Gellir cyflawni'r broses hon ymhen 12 wythnos, ond rydym yn argymhell cymryd ychydig mwy o amser i ganiatáu ar gyfer amgylchiadau nas rhagwelwyd.

*Mae cyfalaf cymdeithasol yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth, Normau a Rhwydweithiau

Pwy sy'n cynllunio ac yn cyflawni'r broses CC?

Rydym yn hyfforddi grŵp o bobl o sefydliadau partner a'r gymuned yn y broses CC. Mae hyn yn rhan bwysig o'r rhaglen wrth i ni ganolbwyntio ar:

- Athroniaeth CC
- Yr egwyddorion a'r safonau
- Gofynion cynllunio allweddol
- Penderfyniadau hollbwysig a fydd yn llywio eich proses CC

Mae CC yn broses ddemocrataidd a thryloyw, felly rydym yn sicrhau bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser ac yn eich cefnogi ar

Sut mae CC yn gweithio?

Mae nifer o fathau o CC, ond CC Grant Bach yw'r mwyaf cyffredin yn y DU. Yma, mae cronfa o arian o gyllideb gyhoeddus ar gael i'r gymuned ac maent yn cael cyfle i wneud cais am gyfran o'r arian. Y gymuned sy'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran pwy sy'n cael arian yn y digwyddiad gwneud penderfyniadau.

Rydym yn gweithio gyda grŵp cynllunio a arweinir gan y gymuned sy'n gwneud pob un o'r 11 penderfyniad allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau megis yr uchafswm y gellir gwneud cais amdano, p'un a yw ceisiadau lluosog yn dderbyniol ac ati. Mae sefydliadau partner yn rhoi cymorth ar yr adeg hon o'r broses. Yna rhoddir cyfle i'r gymuned ehangach wneud cais am arian sy'n cyfateb i thema'r digwyddiad a'r meini prawf y cytunwyd arnynt gan y grŵp cynllunio cymunedol.

Ar ôl proses gwirio ceisiadau, gwahoddir y cynigwyr i'r digwyddiad gwneud penderfyniadau lle cânt gyfle i rannu eu syniad â'r gymuned. Yna rhoddir cyfle i'r gymuned bleidleisio dros y projectau hynny a fydd, yn eu barn hwy, yn rhoi'r budd mwyaf.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am CC a gweld ffilmiau o rai o'n digwyddiadau drwy fynd i'n gwefan www.mutualgain.org

Neu gallwch gysylltu â ni drwy info@mutualgain.org neu 020 3887 2859.

Beth sy'n digwydd ar y diwrnod gwneud penderfyniadau?

Unwaith y bydd yr ystafell wedi'i sefydlu a bod y system PA wedi'i phrofi, gwahoddir pob ymgeisydd neu grŵp i'r llwyfan i roi cyflwyniad byr (3 munud fel arfer). Yna gwahoddir y gymuned i bleidleisio dros bob grŵp ar raddfa o 1 – 5. Cyfrifir y pleidleisiau unwaith y daw'r holl gyflwyniadau i ben. Mae'r rhai sy'n ennill y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael yr arian y gwnaethant gais amdano hyd nes y defnyddir yr holl arian sydd ar gael.

Beth am lywodraethu?

Cytunir ar hyn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, ond gall amrywio o broses arolygu sy'n ofynnol gan y sefydliad comisiynu i'r grŵp cynllunio cymunedol sy'n cynnal gwiriadau dros gyfnod y cytunwyd arno. Byddwn yn eich cefnogi drwy'r broses.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am CC a gweld ffilmiau o rai o'n digwyddiadau drwy fynd i'n gwefan www.mutualgain.org

Neu gallwch gysylltu â ni drwy info@mutualgain.org neu 020 3887 2859.

